**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1040
Ein cyf/Our ref JJ/11679/21

Jack Sargeant MS
Cadeirydd – Pwyllgor Deisebau

deisebau@senedd.cymru

19 Hydref 2021

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Hydref ynghylch “Deiseb P-05-1040: Cyflwyno moratoriwm ar gymeradwo unrhyw losgyddion gwastraff newydd ar raddfa fawr yng Nghymru”.

Nid yw'r moratoriwm a nodwyd fel gweithred yn strategaeth 'Tu Hwnt i Ailgylchu' Llywodraeth Cymru ac a nodwyd yn y Datganiad Ysgrifenedig Gweinidogol ar 24 Mawrth, ac sy'n rhan o bolisi gwastraff cenedlaethol, yn atal ceisiadau am datblygiadau ynni o wastraff ar raddfa fawr rhag cael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru ac am unrhyw benderfyniad a wneir mewn perthynas â hwy. Ar hyn o bryd mae un cais cynllunio Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (“DNS”) gerbron Gweinidogion Cymru sy'n ceisio llosgi gwastraff gweddilliol i gynhyrchu trydan.

Mae gan y system gynllunio ran bwysig i'w chwarae wrth hwyluso rheoli gwastraff yn gynaliadwy. Mae Polisi Cynllunio Cymru, TAN 21: Gwastraff, Cynlluniau Datblygu perthnasol a strategaeth polisi gwastraff, a gymerir yn ei gyfanrwydd, yn cynnwys y cynllun rheoli gwastraff cyffredinol ar gyfer Cymru sy'n ofynnol o dan Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff diwygiedig Erthygl 28.

Mae'r graddau y mae cynnig yn dangos cyfraniad at amcanion, polisi, targedau ac asesiadau rheoli gwastraff sydd wedi'u cynnwys mewn polisi gwastraff cenedlaethol yn ystyriaeth gynllunio berthnasol ar gyfer y cais cynllunio DNS hwn a cheisiadau o'r fath yn y dyfodol.

Yr eiddoch yn gywir,

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.